EOC(3) AI 013

Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

EOC(3)-15-08 (p1) : 20 Tachwedd 2008

Hygyrchedd dogfennau ar gyfer pobl â nam ar eu golwg – ailystyried adroddiad y pwyllgor

Cyflwyniad

Trafododd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal hygyrchedd dogfennau sydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer pobl â nam ar eu golwg yn ystod ei gyfarfod ar 2 Gorffennaf 2008. Cyflwynwyd papur i'r pwyllgor gan DeafBlind UK[1] a chafwyd tystiolaeth ar lafar ganddynt. Roedd y papur yn amlinellu cyfres o ganllawiau ar gyfer gwella hygyrchedd dogfennau sydd wedi'u cyhoeddi, boed y dogfennau hynny ar fformat caled neu electronig, ar gyfer pobl ddall, pobl â nam ar eu golwg a phobl dall a byddar. Roedd y papur hefyd yn cynnwys argymhellion mewn perthynas â mathau eraill o gefnogaeth a ddylai fod ar gael i bobl ddall, pobl â nam ar eu golwg a phobl dall a byddar wrth ddod o hyd i wybodaeth.

Cyn y cyfarfod o'r pwyllgor, gofynnodd y Cadeirydd i DeafBlind UK edrych pa mor hygyrch yw gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn ystod y drafodaeth yn y pwyllgor, gwnaeth DeafBlind UK nifer o argymhellion ynghylch sut y gellid gwneud y wefan yn fwy hygyrch.

Penderfynodd y pwyllgor gymryd nifer o gamau, yn cynnwys:

- Ysgrifennu at Gomisiwn y Cynulliad i dynnu sylw at fannau y gellid eu gwella ar y wefan.
- Ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol neu Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gofyn am wybodaeth am faint o awdurdodau lleol yng Nghymru sydd â pholisi gwybodaeth hygyrch a beth mae'n ei gynnwys.
- Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am yr un wybodaeth mewn perthynas â'r awdurdodau iechyd a'r byrddau iechyd lleol yng Nghymru.

---

[1] Papur y Pwyllgor Cyfle Cyfartal EOC(3)-10-08: P(1) 2 Gorffennaf 2008: http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-eoc-home/bus-committees-third-eoc-agendas.htm?ds=7%2F2008&submit=Submit

Cytunwyd hefyd y dylid anfon adroddiad y pwyllgor at grŵp trawsbleidiol i-change sy'n ystyried anghenion technolegol y Cynulliad ar gyfer y dyfodol.

Ymatebion i gamau'r pwyllgor

Mewn ymateb i lythyrau gan y Cadeirydd, mae'r pwyllgor wedi adolygu ymatebion gan:

- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Y Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- RNIB

Amgaeir yr ymatebion hyn fel Atodiadau i'r papur hwn.

Bydd cyfle i'r Aelodau holi Lorraine Barrett, AC, ynghylch polisi hygyrchedd gwybodaeth Comisiwn y Cynulliad yn ystod cyfarfod heddiw.

Ymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Atodiad 1)

Gofynnodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i awdurdodau lleol am fanylion eu polisïau hygyrchedd gwybodaeth. Pan ymatebodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, roedd dros hanner yr awdurdodau wedi ymateb. Yn gryno:

- Nododd dau awdurdod lleol fod ganddynt bolisïau hygyrchedd gwybodaeth
- Dywedodd tri eu bod wrthi'n cynllunio neu'n diweddaru polisïau
- Mae gweddill yr awdurdodau wedi cynhyrchu canllawiau ynghylch darparu gwybodaeth hygyrch sydd un ai'n rhan o ddogfen gorfforaethol ehangach neu wedi eu datblygu ar gyfer gwasanaethau penodol.
- Maent i gyd ar gael ar safleoedd rhyngrwyd neu mewnrwyd awdurdodau lleol.

Mae'r ymateb amgaeëdig gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn rhoi rhagor o fanylion am y ffurfiau eraill o roi gwybodaeth ac am faterion hygyrchedd y we. Nododd bob awdurdod a ymatebodd i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru eu bod yn bodloni Safon y WAI[2]. Mae papur Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd yn nodi rhai enghreifftiau o arfer da.

[2] Mae'r Web Accessibility Initiative (WAI) yn gweithio gyda sefydliadau ledled y byd i ddatblygu strategaethau, canllawiau ac adnoddau er mwyn helpu i wneud y We yn hygyrch i bobl ag anableddau. Am ragor o fanylion, ewch i: http://www.w3.org/WAI/about-links.html

Ymateb y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Atodiad 2)

Paratôdd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol adroddiad i'r pwyllgor, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2008, o dan y teitl *Polisïau Gwybodaeth Hygyrch a Dulliau Cyfathrebu Sefydliadau'r GIG yng Nghymru – Ymatebion Ymddiriedolaethau'r GIG a'r Byrddau Iechyd Lleol.* Mae'r adroddiad yn nodi nad oes gan y mwyafrif o sefydliadau'r GIG yng Nghymru bolisïau gwybodaeth hygyrch, er fod gan y rhan fwyaf ohonynt bolisïau cleifion a gwybodaeth sy'n cynnwys adrannau am hygyrchedd gwybodaeth. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys enghreifftiau o'r fformatau a'r dulliau a ddefnyddir i gynnal anghenion cyfathrebu cleifion. Mae'r ddarpariaeth yn amrywio ar draws Cymru.

Mae rhagor o fanylion i'w cael yn yr adroddiad, a amgaeir fel Atodiad i'r papur hwn.
Yn dilyn canfyddiadau Deafblind UK, nododd y Gweinidog hefyd nad oedd 58% o gleifion dall a byddar wedi cael cardiau apwyntiad ar fformatau hygyrch, a'i bod wedi gofyn i sefydliadau'r GIG yng Nghymru am fanylion o arferion cyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol ac eilaidd ac ymddiriedolaethau'r GIG a chleifion.

Ymateb RNIB (Atodiad 3)

Dywedodd RNIB ei fod yn falch bod y pwyllgor wedi penderfynu edrych ar fater hygyrchedd gwybodaeth. Mae'n cyfeirio'r pwyllgor at adroddiad o'r enw *Gweithredu Polisïau*[3] a ganfu dystiolaeth o ddarpariaeth wael ar fformatau hygyrch, er gwaethaf y ffaith fod *Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995* wedi bod mewn grym ers dros ddegawd. Mae RNIB wedi anfon copi o'i bolisi hygyrchedd gwybodaeth ei hun, sydd ar gael gan dîm clercio'r pwyllgor.

[3] Gweithredu Polisïau RNIB Mawrth 2008: http://www.pollinationcampaigns.co.uk/pages/hub/about-us/media_releases/turning-policies-into-practice.asp